# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 7 HYDREF 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | TUESDAY, 7 OCTOBER, 2014 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees *(Cadeirydd/Chair)*, Alwyn Rowlands

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales) *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*, Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/ The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig), Gwag/Vacant (Ysgol Uwchradd Caergybi/Holyhead High School)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 17 MEHEFIN, 2014** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2014.

3 **MATERION YN CODI**

- Gweithio Mewn Partneriaeth – Kirsty Williams i adrodd yn ôl ynglyn â'r cynigion a wnaed yn y cyfarfod blaenorol.
- Swyddog Addysg Cynradd i adrodd yn ôl ynglyn â gohebu gydag Estyn.
- Arweinydd Systemau i adrodd yn ôl ynglyn â'r ymateb a luniwyd i'r Holiadur Cais am Dystiolaeth

4 **CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG YNYS MÔN** (Tudalennau 7 - 8)

Ystyried Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn (a gyflwynwyd ar y diwrnod i'r cyfarfod blaenorol).

5 **ADDOLI AR Y CYD**

- Pennaeth Ysgol Gynradd Llangaffo i roddi cyflwyniad ar drefniadau'r ysgol ar gyfer addoli ar y cyd.

- Aelodau'r CYSAG i roddi adborth ar eu hymweliadau addoli ar y cyd ag ysgolion fel a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2013/14** (Tudalennau 9 - 28)

Cyflwyno drafft cychwynnol o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn am 2013/14.

7 **AROLYGIADAU YSGOL - HAF, 2014** (Tudalennau 29 - 30)

Cyflwyno gwybodaeth ynghylch arolygiadau ysgol Haf, 2014.

8 **HUNAN-ARFARNIAD YSGOL** (Tudalennau 31 - 42)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarniad Ysgol Gynradd Llangaffo ac Ysgol Gyfun Llangefni.

9 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Yr Is-Gadeirydd i adrodd am gyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 2 Gorffennaf, 2014.

10 **GOHEBIAETH**

Y Cadeirydd i adrodd am unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd.

## 11 **<u>CYFARFOD NESAF</u>**

Dydd Mawrth, 17 Chwefror, 2015 .

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)
## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery |
| | **Enwadau Crefyddol** |
| | Mr Rheinallt Thomas (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)(Is-Gadeirydd)<br>Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru) |
| | **Cynrychiolwyr Athrawon** |
| | Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)<br>Mrs Alison Jones (Ysgol Parch. Thomas Ellis) |
| | **Aelodau a Gyfetholwyd** |
| | Y Parch Elwyn Jones (Cyngor Ysgolion Sul) |
| **WRTH LAW**: | Mr D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd)(Clerc i'r CYSAG)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Parch Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Miss Bethan James (Arweinydd Systemau – GwE) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol gan estyn croeso arbennig i Mr. Christopher Thomas i'w gyfarfod cyntaf o GYSAG Ynys Môn fel cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2014 yn amodol ar gynnwys Mr Rheinallt Thomas (Is-Gadeirydd) yn y rhestr o rai oedd yn bresennol.

Materion yn codi –

- Adroddodd yr Arweinydd Systemau yng nghyswllt nodi dulliau o hwyluso a chefnogi cyfleon hyfforddi i Athrawon AG a Chydlynwyr i godi safonau AG lle bo angen hynny a bod tair ystyriaeth wedi dod i'r amlwg sef –
    - Yr angen i ddod i ddealltwriaeth mewn egwyddor bod CYSAG Ynys Môn ynghyd â'r Awdurdod ym Môn yn barod i weithio ar y cyd gyda chyrff CYSAG eraill yng Nghymru i ffurfio rhaglen hyfforddi. Cyfeiriodd yr Arweinydd Systemau at y cwrs hyfforddi i Athrawon CA3 ar ddeall safonau yn CA3 ac a gynhaliwyd y flwyddyn ddiwethaf, fel esiampl o'r

manteision o weithio ar y cyd i ddarparu hyfforddiant ar amser pan nad yw grwpiau sy'n draddodiadol yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i athrawon mewn AG mwyach ar gael. Roedd y cwrs yn cynnwys o ran trefniadau, cyfraniad a chyfranogiad - gyrff CYSAG Gogledd Cymru, Cymdeithas CYSAGau Cymru, Cynghorau Môn a rhai eraill yng Ngogledd Cymru a'u hysgolion. Dywedodd y Swyddog ei bod hi a'i chyd-aelodau o'r PYCAG yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant y model hwn o weithio'n gydweithredol ac i'w ddatblygu ymhellach yn y dyfodol. Ei hargymhelliad hi fyddai bod Cyngor Ynys Môn yn cefnogi Cynghorau a chyrff CYSAG eraill o ran gweithio gyda'i gilydd i ddarparu rhaglen o hyfforddiant. Roedd teimlad hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu rhaglen o gyrsiau dros ddwy i dair blynedd ac a fyddai ar gael yn lleol, gyda hynny'n caniatáu amser i athrawon gynllunio ar eu cyfer ac a fyddai'n rhoi sylw dyledus i anghenion y sectorau cynradd a'r uwchradd ac yn mynd i'r afael â gofynion cyfredol fel llythrennedd a rhifedd.

- O safbwynt hwyluso a chefnogi athrawon i ddod at ei gilydd i drafod meysydd sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol gyda golwg ar rannu arfer dda a syniadau, dywedodd yr Arweinydd Systemau y gallai'r CYSAG, o safbwynt y sector cynradd yn arbennig, dderbyn y byddai'n rhaid i hon fod yn ddarpariaeth cost isel ar y cyd heb gynnwys grwpiau allanol ac a fyddai'n adeiladu ar y grwpiau cyfredol yn lleol. Efallai y byddai gofyn i'r CYSAG fel corff ystyried gwneud ychydig o'r gwaith cefnogi gweinyddol ac fe ellid sefydlu rota o hwyluswyr gyda Chyngor Ynys Môn efallai yn cyllido sesiwn gychwynnol. Efallai wedi hynny y byddai'n bosibl cael cydlynwyr AG yn y sector cynradd i sefydlu eu rhwydwaith eu hunain o fewn y sir.
- I sefydlu cymorthfeydd ar ôl ysgol ar ddechrau pob tymor ar gyfer yr ysgolion y disgwylir iddynt gyflwyno eu hadroddiadau hunanarfarnu i'r CYSAG i'w hatgoffa hwy o rai o'r ystyriaethau allweddol wrth wneud hynny.

  Dywedodd yr Is-Gadeirydd wrth yr Aelodau bod llythyr ar ran Cynghorau Eglwysi Rhydd Cymru wedi ei anfon at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru yn ei longyfarch ar ei anerchiad i'r gynhadledd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar ac am y gydnabyddiaeth a roddodd i Addysg Grefyddol tra ar yr un pryd yn dwyn i'w sylw ddwy ystyriaeth allweddol -

  - Dyfodol y cyrff CYSAG yng Nghymru. Roedd y llythyr yn gofyn i'r Gweinidog ail-ddatgan ac atgoffa pob Awdurdod Lleol bod ganddynt ddyletswydd statudol i sefydlu corff CYSAG.
  - Oherwydd y gofyniad lleol o ran AG, bod camau'n cael eu cymryd i ailsefydlu rhyw system o gefnogaeth uniongyrchol a chyngor i ysgolion ac athrawon yn dilyn colli'r system flaenorol o ymgynghorwyr pwnc o ganlyniad i gyflwyno arweinyddion system fel rhan o GwE, ac i sicrhau cefnogaeth i'r system honno.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd bod y llythyr wedi ei anfon ymlaen i'r holl enwadau crefyddol gan ofyn iddynt fynd ar ôl y mater.

Roedd cynrychiolydd yr athrawon ysgolion uwchradd yn cefnogi'r awgrym a wnaed dros gryfhau'r ddarpariaeth o gefnogaeth a chyngor i ysgolion ac i athrawon AG a dywedodd, o ystyried y pwyslais cyfredol ar wella llythrennedd a'r sgiliau rhifedd, fod yn awr lai o gyfle ar gyfer hyfforddiant pwnc penodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gweithredu yr oedd yr Arweinydd Systemau wedi ei roi gerbron yn y cyfarfod gyda'r bwriad o sicrhau bod nodau ac amcanion adroddiad blynyddol CYSAG Ynys Môn 2012/13 yn cael eu darparu mewn ffordd effeithiol ac amserol ac awgrymodd y dylid ei ystyried fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dywedodd yr Arweinydd Systemau y dylid, yng ngoleuni sylwadau a wnaed yn yr adolygiad o Adroddiadau Blynyddol CYSAGau y dylai cyrff CYSAGau fabwysiadu agwedd fwy hunan-arfarnol i'w gwaith a byddai'n awgrymu bod yr Aelodau yn ystyried beth sy'n ymarferol o fewn y Cynllun Gweithredu a'u bod yn nodi deilliannau fel y gallant asesu eu hunain yn eu herbyn fel corff CYSAG o fewn blwyddyn neu ddwy er mwyn gallu dangos effeithlonrwydd y corff.

**Penderfynwyd –**

DRAFT

- **Cymeradwyo'r awgrymiadau a wnaed gan yr Arweinydd Systemau mewn perthynas â hwyluso a chefnogi cyfleon hyfforddi i Athrawon AG er mwyn codi safonau AG yn yr ysgolion.**
- **Bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei gynnwys i'w ystyried ar raglen y cyfarfod nesaf o'r CYSAG**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Swyddog Pwyllgor i gynnwys y Cynllun Gweithredu ar raglen y cyfarfod nesaf o'r CYSAG.**

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr awgrym a wnaeth yn y cyfarfod blaenorol y dylid cyflwyno elfen ysbrydol i gyfarfodydd y CYSAG drwy gael gweddi neu ennyd i adlewyrchu a dywedodd bod hyn wedi codi rhai ystyriaethau cyfreithiol ac roedd yntau wedi ceisio cael eglurhad ohonynt gan Swyddog Monitro'r Cyngor. Yng ngoleuni cyngor y Swyddog Monitro, roedd yn awr am awgrymu bod pob cyfarfod o CYSAG Ynys Môn yn cael ei gau gyda gweddi wedi i fusnes ffurfiol y cyfarfod ddod i ben er mwyn caniatáu i unrhyw un fyddai'n dymuno gadael allu gwneud hynny. Roedd Aelodau'r tri grŵp cynrychiadol yn cyd-fynd â'r awgrym hwn.

  **Penderfynwyd y dylid cloi pob cyfarfod o'r CYSAG gyda gweddi yn dilyn cwblhau busnes ffurfiol y cyfarfod.**

**3 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

Cafwyd cyflwyniad gan Kirsty Williams i'r CYSAG yn rhinwedd ei swydd fel Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd i'r Eglwys yng Nghymru a rhoddodd gerbron adroddiad oedd yn rhoi crynodeb o'r syniadau a gyflwynwyd. Yn ei chyflwyniad awgrymodd Ms Williams y ffyrdd canlynol y gallai'r Eglwys yng Nghymru gynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion mewn AG -

- Hyrwyddo sesiynau hyfforddi i athrawon mewn themâu perthnasol o fewn AG o fewn neu y tu allan i'r ysgol.
- Darparu pecynnau addysgol i athrawon sydd yn hygyrch ac yn hawdd i'w defnyddio e.e. bocsys adnoddau yn cynnwys arteffactau, cynlluniau gwersi a deunyddiau cefnogi eraill y gall athrawon eu harwyddo i mewn ac allan.
- Systemau mentora i blant mewn perthynas â'r hyn y maent yn ei ddysgu yn y gwersi Addysg Grefyddol a allai yn ei dro ddarparu prosiect mentora drwy'r ysgol gyfan.
- Darparu llecynnau gweddïo i'w defnyddio yn unigol gan blant neu fel rhan o ymarfer dosbarth fel sy'n briodol.
- Darparu lleoliadau gwirfoddoli i bobl ifanc sydd efallai yn ei chael yn anodd i gael at gyfleon gwirfoddoli.
- Gwasanaeth cwnsela i ategu'r ddarpariaeth bresennol o fewn ysgolion.
- Dyddiau symud ymlaen i blant a phobl ifanc i roi iddynt y sgiliau ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu bywydau.

  Roedd Aelodau'r CYSAG yn cydnabod yr awgrymiadau a wnaed ac roeddent am bwysleisio na all y CYSAG fel corff ond hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth am wasanaethau ac adnoddau i ysgolion er mwyn iddynt hwythau weithredu arnynt fel y byddant yn barnu'n briodol, ac mai mater i ysgolion unigol yw a fyddant yn derbyn y cynnig o wasanaeth ai peidio.

  Tynnodd yr Arweinydd Systemau sylw at y ffaith bod rhai o'r gwasanaethau y mae'r Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys yn ei awgrymu y gallai'r Eglwys eu cynnig eisoes yn cael eu darparu o fewn ysgolion ac amlygodd y meysydd canlynol fel rhai y byddai'r Galluogydd efallai yn dymuno eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu'r ddarpariaeth ac adnoddau:

- Canolfan Adnoddau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Addysg Grefyddol sy'n darparu ystod o adnoddau yn cynnwys bocsys adnoddau sy'n ymdrin â rhai o'r themâu a grybwyllwyd.
- Adran y plant yng Ngwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn sy'n benthyca bocsys o arteffactau yn ogystal â llyfrau i ysgolion.

- Bod prinder o adnoddau ar gael i ysgolion sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm Cymreig o ran diffinio ffydd ac ymlyniad i ffydd yng Nghymru o safbwynt Cymreig. Dylai'r adnoddau a ddarperir gan yr Eglwys yng Nghymru adlewyrchu'r dimensiwn hwnnw.
- Mae rhai gwasanaethau fel cwnsela, mentora a gwasanaethau hyfforddi eisoes wedi eu sefydlu'n dda mewn nifer o ysgolion uwchradd y sir. Efallai y byddai'r Eglwys yng Nghymru felly yn dymuno ystyried pa anghenion penodol y mae'n gallu ymateb iddynt a bod ei chynrychiolydd yn gwneud pobl ifanc a'u rhieni'n ymwybodol mai'r eglwys sy'n darparu'r gefnogaeth i ysgolion lle bo hynny'n berthnasol.

  Awgrymodd y Cadeirydd y dylai Galluogydd y Weinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys adolygu'r adroddiad yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed a'i ailgyflwyno i'r CYSAG yn y cyfarfod nesaf.

  **Penderfynwyd –**

  - **Nodi'r wybodaeth a diolch i Kirsty Williams fel y Galluogydd Gweinidogaeth ar gyfer Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys yng Nghymru am eu hawgrymiadau a,**
  - **Gofyn iddi adolygu'r cynigion yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth a ddilynodd.**

**4 SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL – ADRODDIADAU GAN ESTYN**

Cyflwynwyd gwybodaeth am y canfyddiadau perthnasol o adroddiadau archwiliad Estyn mewn perthynas ag Ysgol Biwmares ac Ysgol Goronwy Owen.

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Cynradd nad oedd unrhyw faterion yn codi o safbwynt yr ysgolion a archwiliwyd. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r CYSAG at yr amrywiad yn nefnydd yr archwiliwr o derminoleg yn disgrifio'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol moesegol, diwylliannol ac ysbrydol y disgyblion a dywedodd bod yr arolygwr yn achos Ysgol Biwmares yn cyfeirio at sesiynau addoli ar y cyd gyda'r arolygwr yn achos Ysgol Goronwy Owen yn cyfeirio'n anghywir at "gynulliadau rheolaidd". Atgoffodd y Swyddog Addysg Cynradd yr Aelodau bod y CYSAG eisoes wedi dwyn yr anghysondeb hwn yn y defnydd o derminoleg gan arolygwyr ysgolion i sylw ESTYN a chafwyd ymateb ar y pryd gan Brif Arolygwr y corff yn ceisio egluro bod cyfarwyddyd atodol ESTYN i arolygwyr ar addoli ar y cyd yn gwahaniaethu rhwng addoli ar y cyd a chynulliadau boreol ac roedd hefyd yn nodi y gallai cynulliad boreol gynnwys gweithred o addoli ar y cyd. Roedd yr ymateb hefyd yn gwahodd y CYSAG i amlygu unrhyw anghysonderau eraill y gallai eu nodi.

Nododd yr Is-Gadeirydd fod, yn ogystal â'r defnydd anghywir o'r term "cynulliad boreol" hefyd anghysondeb rhwng y term Saesneg a'r cyfieithiad Cymraeg cyfatebol gyda hynny'n arwain at anghysondeb o ran iaith yn ogystal ag ystyr. Awgrymodd, a chytunwyd ar hynny, y dylai'r gwahaniaeth gael ei ddwyn i sylw Prif Arolygwr Estyn.

Dywedodd yr Arweinydd Systemau y gallai hefyd fod yn enghraifft lle yr oedd yr arolygwr yn defnyddio hunan-arfarniad yr ysgol ac y gallai fod o fudd, felly, i atgoffa'r ysgolion o'r angen i ddefnyddio'r derminoleg gywir wrth ddrafftio eu hadroddiadau hunan-arfarnu.

**Penderfynwyd –**

- **I nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Bod yr enghraifft o'r defnydd anghywir o derminoleg yn adroddiad yr Arolygwr ar Ysgol Goronwy Owen yn cael ei ddwyn at sylw Prif Arolygwr Estyn.**

  **CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Swyddog Addysg Cynradd i ddrafftio llythyr i Brif Arolygwr Estyn yn unol â phenderfyniad y CYSAG.**

**5 CYFLAWNI CYFRIFOLDEBAU MONITRO'R CYSAG**

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG gopi o lythyr a anfonwyd i Brifathrawon y sir yn gofyn am eu cydweithrediad gyda darparu adroddiadau hunan-arfarnu ysgolion yn unol ag amserlen benodol ac yn hyrwyddo ymweliadau addoli ar y cyd.

Gan gyfeirio at ymweliadau addoli ar y cyd i ysgolion gan Aelodau o'r CYSAG eglurodd y Swyddog Addysg Cynradd ei fod yn ei lythyr wedi ceisio pwysleisio'r ffaith y byddai unrhyw Aelod o'r CYSAG

a fyddai'n mynychu sesiwn o addoli ar y cyd mewn ysgol fyddai'n gwirfoddoli yn gwneud hynny gyda golwg ar gael syniad o brofiadau'r disgyblion yn y maes hwn ac nid i arwain mewn unrhyw ffordd. Dywedodd y Swyddog ei fod eisoes wedi derbyn ymateb gan nifer o ysgolion yn rhoi eu hunain ymlaen i dderbyn ymweliad o'r fath.

Awgrymodd yr Arweinydd Systemau y byddai o gymorth pe bai'r Cyfarwyddyd CYSAG Cymru Gyfan ar Addoli ar y cyd yn cael ei anfon eto i'r Aelodau i'w helpu hwy yn eu paratoadau ar gyfer eu hymweliadau.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y byddai aelodau'r CYSAG yn cynnal ymweliadau addoli ar y cyd i'r ysgolion rheini oedd wedi cynnig eu hunain fel a ganlyn, ac y byddai'r Aelodau unigol yn cysylltu â'r ysgolion i drefnu amser a dyddiad fyddai'n hwylus i'r ddwy ochr:**

**Ysgol Uwchradd Bodedern – Y Cynghorydd G.O.Jones**

**Ysgol Parch. Thomas Ellis - Mr Rheinallt Thomas**

**Ysgol y Parc, Caergybi – Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones**

**Ysgol Kinglsand, Caergybi ac Ysgol Pentraeth – Kirsty Williams**

**Canolfan Addysg y Bont – Mrs Catherine Jones**

**Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel – Miss Bethan James (fel Arweinydd Systemau)**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Swyddog y Pwyllgor i gylchredeg Cyfarwyddyd CYSAGau Cymru ar Addoli ar y Cyd i'r Aelodau.**

**6 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG gofnodion drafft y cyfarfod o'r CYSAGau a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 27 Mawrth, 2014 a hefyd yr enwebiadau terfynol i Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas.

Nododd yr Is-Gadeirydd y bydd y wefan newyddion AG yn awr ar gael am ddim fel yr adroddwyd dan eitem 5(11) y cofnodion. Dywedodd y Swyddog Addysg Cynradd y byddai'n dweud wrth ysgolion y sir bod y wefan bellach ar gael am ddim.

Gan gyfeirio at Farc Ansawdd Addysg Grefyddol dywedodd yr Arweinydd Systemau bod cyfarwyddyd ar gyfer hunanarfarnu yn awr ar gael ar wefan REQM (ar gael i ysgolion yng Nghymru trwy glicio ar y tab Cymru) a hefyd holiaduron dysgwyr ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd allai fod o ddefnydd arbennig i Benaethiaid Adrannau a chydlynwyr AG mewn amgylchiadau lle y bo grŵp o ysgolion yn dod at ei gilydd mewn dalgylch neu glwstwr.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth.**
- **Yng nghyswllt enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith i ddirprwyo i'r Is-Gadeirydd yr awdurdod i bleidleisio ar y diwrnod ar ran CYSAG Ynys Môn.**

**7 ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O ASESU A CHWRICWLWM CENEDLAETHOL CYMRU**

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG yr Adolygiad Annibynnol o Asesiad a dogfen "Cais am Dystiolaeth" Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a holiadur.

Eglurodd yr Arweinydd System beth oedd y cefndir gan gyfeirio at y gofynion yn nhermau'r maes llafur Addysg Grefyddol a sut yr oedd yn gwahaniaethu oddi wrth y cwricwlwm cenedlaethol oherwydd ei fod yn cael ei benderfynu'n lleol. Fodd bynnag, mae'r holl gyrff CYSAG yng Nghymru wedi mabwysiadu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer AG a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru gyda hynny'n golygu bod pwynt cyfeirio cyffredin bellach o safbwynt sgiliau, ystod a lefelau cyrhaeddiad yn AG. Rhaid i'r maes llafur a gytunir yn lleol gael ei adolygu bob 5 mlynedd ond fe benderfynwyd yn lleol yn 2013 i ohirio'r adolygiad hyd nes y bydd yr adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'i gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cais am dystiolaeth ar y cwricwlwm ac wedi rhyddhau holiadur i rieni, plant a phobl ifanc a phartïon sydd â diddordeb mewn addysg. Roedd yr Athro Graham Donaldson a gomisiynwyd i gynnal yr adolygiad wedi cytuno i gyfarfod â Grŵp o Gymdeithasau CYSAGau Cymru ar 20 Mehefin ac y mae hefyd wedi caniatáu i unrhyw ymateb ffurfiol gael ei ohirio tan ar ôl cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru ym Mhowys ar 2 Gorffennaf. Dywedodd bod angen i'r CYSAG ystyried a oes ganddo fel corff farn ar yr adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, rhoddodd Aelodau'r CYSAG ystyriaeth i'r holiadur Cais am Dystiolaeth gan roi eu hymateb lle yr oedd hynny'n berthnasol i'r cwestiynau oedd ynddo. Roedd y CYSAG yn cytuno i ddirprwyo'r Awdurdod i'r Arweinydd Systemau i ymateb yn ffurfiol i'r holiadur ar ei ran yn seiliedig ar safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y drafodaeth yn y cyfarfod hwn.

**Penderfynwyd dirprwyo awdurdod i'r Arweinydd Systemau i ymateb yn ffurfiol i'r ddogfen Cais am Dystiolaeth ar ran y CYSAG yn seiliedig ar y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y drafodaeth arno.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Yr Arweinydd Systemau i lunio ymateb priodol.**

**8 LLYTHYRAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r CYSAG adroddiad gan y Parch Stephen Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd) o Gynhadledd Diogelu Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno ar 28 Mawrth 2014.

Nododd y CYSAG y wybodaeth ac roedd yn gytûn yn ei ddiolchiadau i'r Parch Stephen Roe am fynychu'r gynhadledd ac am adrodd yn ôl ar weithgareddau'r dydd.

**9 CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf o'r CYSAG yn cael ei gynnal am 2:00 p.m. ar ddydd Mawrth 7 Hydref 2014.

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFT

**Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2014-15 DRAFFT**

| Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2012-13 | Camau Gweithredu 2013-15 | Tystiolaeth | Deilliannau | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu arweinyddiaeth dda ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd<br><br>Tudalen 7 | • Sicrhau bod pob ysgol yn derbyn arweiniad ar hunan arfarnu addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.<br>• Cyflwyno amserlen a threfn hunan arfarnu<br>• Rhannu arferion da mewn cyfarfodydd CYSAG.<br>• Hwyluso rhannu arferion da | • Canllawiau hunan arfarnu<br>• Amserlen a threfn hunan arfarnu.<br>• Adroddiadau Hunan arfarnu'r ysgolion<br>• Cofnodion CYSAG Môn<br>• Cofnodion cyfarfodydd athrawon. | • Bron bob un ysgol wedi cyflwyno hunan arfarniad o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd erbyn Haf 2015.<br>• CYSAG wedi paratoi adroddiad crynodol tymhorol a blynyddol o safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.<br>• Gwahodd ysgolion i gyflwyno eu harferion gorau i aelodau CYSAG | ☺<br>😐<br>☹ |
| Cau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn TGAU.<br><br>Tudalen 10 | • CYSAG i lythyru penaethiaid uwchradd i sicrhau bod athrawon yn cael mynediad i gefnogaeth CBAC ac yn ymwybodol o Adroddiad Thematig ESTYN.<br>• Annog athrawon TGAU i rannu arferion da mewn rhwydwaith/CDP. | • Llythyron i benaethiaid<br>• Cofnodion rhwydwaith/CDP addysg grefyddol TGAU<br>• Cylchlythyr/adroddiad y Prif Arholwr. | • Mwy o fechgyn yn dewis TGAU Astudiaethau Crefyddol;<br>• Y bwlch rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r marched yn parhau i gau. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Diweddaru gwybodaeth athrawon addysg grefyddol, e.e. canllawiau Llywodraeth Cymru, ESTYN.<br><br>Tudalen 12-13 | • CYSAG i ddiweddaru a cylchredeg restr o ganllawiau perthnasol. | • Llythyr/Cylchlythyr i ysgolion<br>• Y dogfennau ar gael ar wefan Moodle CYNNAL. | • Hunan arfarniadau ysgolion yn dangos bod athrawon yn cynllunio gwersi sy'n ymateb i arweiniad Llywodraeth Cymru (cynradd ac uwchradd) ac yn adlewyrchu arferion da Adroddiad thematig ESTYN (uwchradd) | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hyrwyddo Addoli ar y Cyd o ansawdd<br><br>Tudalen 14 | • CYSAG i lythyru ysgolion i sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r deunyddiau diweddaraf ar gyfer addoli ar y cyd.<br>• Codi ymwybyddiaeth aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | • Llythyr/cylchlythyr i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2013 – Awst 2014

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Dr. Gwynne Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2013-14
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Dylan Rees
Cadeirydd, 2013-14

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyd at Fawrth 2013, hyrwyddwyd y ddogfen a deunyddiau enghreifftiol gan ymgynghorydd dyniaethau CYNNAL yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac mewn ymweliadau i ysgolion. Daeth y gefnogaeth gwricwlaidd i ben ym mis Mawrth 2013.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd'.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chyngori'r awdurdodau addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Môn (28.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (26.11.13) yn dangos bod:

- holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod. Roedd un aelod yn barod i arwain sesiynau addoli ar y cyd yn achlysurol;
- llawer o aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ac yn barod i ddarllen a pharatoi dadansoddiad o sampl o hunan arfarniadau ysgol. Derbyniwyd enwau pedwar ohonynt;

- mwyafrif yn barod i ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad yr ysgol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran a derbyniwyd enwau pedwar ohonynt.

### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Cyflwynwyd 3 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Y Fali a Pentraeth yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad gan Ysgol uwchradd Bodedern.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 2 | | | | 2 | | | | 2 | | |
| **Uwchradd** | | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 3 | | | | 3 | | | | 3 | | |

Roedd yr adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

### Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddisgrifio a thrafod prif nodweddion defodau, gwyliau a dathliadau crefyddol; (Ysgol Gymuned Y Fali, Pentraeth);
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyfrannu ar lafar at drafodaethau sy'n seiliedig ar gwestiynau moesol megis, '*beth sy'n gwneud ffrind da?*' '*pam bod hi'n bwysig dweud y gwir*' (CS Pentraeth) a chwestiynau sylfaenol megis '*beth sy'n gwneud ni'n ddynol?*' neu '*beth sy'n real?*' (CA2 Pentraeth), '*a oes bywyd ar ôl marwolaeth?*' neu '*beth yw ystyr bywyd?*' (CA3 Uwchradd Bodedern);
- gallu'r disgyblion i nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol ar draws y crefyddau (CA2 Ysgol Gymuned Y Fali);
- hyder y disgyblion i ddefnyddio TGCh i gywain gwybodaeth mewn gwersi addysg grefyddol (Ysgol Gymuned Y Fali);
- cyflawniadau disgyblion CA3, CA4 a CA5 mewn asesiadau athrawon ac arholiadau allanol (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu gallu'r dysgwyr i ymdrin â chwestiynau mawr (Ysgol Gymuned Y Fali);
- gau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion Prydiau Ysgol am Ddim (PYD) a'u cyd-ddisgyblion (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- cynllunio priodol, (Ysgol Gymuned Y Fali, Ysgol Uwchradd Bodedern);
- y defnydd llwyddiannus o gwestiynau mawr fel ffocws i'r addysgu, (Ysgol Pentraeth);
- gweithgareddau dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion adeiladu ar eu dysgu blaenorol ac i ddatblygu eu sgiliau addysg grefyddol a'u gallu i fynegi barn a gwneud penderfyniadau, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- gweithgareddau llafar ac ysgrifenedig sy'n ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol, (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- adolygu'r cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau dilyniant, (Ysgol Gymuned Y Fali);
- ddatblygu llythrennedd trwy addysg grefyddol, (Ysgol Gymuned Y Fali);
- arsylwi gwersi addysg grefyddol fel rhan o waith hunan arfarnu'r ysgol, (Ysgol Gymuned Fali);
- ddenu mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc i safon TGAU, UG ac Uwch, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- ddatblygu tasgau heriol, diddorol ac ymestynnol ar gyfer y dysgwyr uwch eu gallu, (Ysgol Uwchradd Bodedern);
- dreialu rhagor o strategaethau datblygu meddwl ac adolygu er mwyn codi safonau a chyflawniad y dysgwyr, (Ysgol Uwchradd Bodedern);

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- cyfraniad y disgyblion i'r sesiynau addoli ar y cyd ac i ddathliadau crefyddol megis Diolchgarwch a Christingl, (Ysgol Y Fali);
- y cysylltiadau agos sydd rhwng yr ysgol a'r eglwys leol, (Ysgol y Fali);
- naws ysbrydol y sesiynau addoli ar y cyd, (Ysgol Pentraeth);
- cyfraniad arwyddocaol y sesiynau addoli ar y cyd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr, (Ysgol Uwchradd Bodedern).

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- datblygu themâu penodol a chynllunio yn fwy strwythuredig ar gyfer y sesiynau addoli ar y cyd, (Y Fali);
- arsylwi sesiynau addoli ar y cyd yn ffurfiol, (Ysgol Pentraeth)

Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion (11 Mehefin 2014) i ofyn i bob ysgol i gyflwyno'i hadroddiad hunan arfarnu yn ystod 2014-15. Gofynnwyd i'r ysgolion hefyd i estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc, ac
- Gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;
- Hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| Blwyddyn | Ysgolion | Disgyblion | | %L5+ | | %L6+ | | %L7+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* |
| 2013 | 5(5)+5(14)+1(7) | 675 | 1,241 | 86.8% | ? | 41.6% | ? | 13.8% | ? |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 656 | 2,568 | 74.1% | 82.9% | 29.7% | 43.4% | 6.9% | 12.7% |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 377 | 1,767 | 76.9% | | 26.0% | | 10.1% | |

* Erbyn diwedd tymor yr Hydref 2013 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 5 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd a 1 allan o 7 ysgol yng Nghonwy. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgol arbennig wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 675 o ddisgyblion CA3 yn ystod tymor yr Haf 2013.
- Cyflawnodd 86.8% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol sy'n gynnydd o 12.7% ers 2012. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 79.4% i 93.3%;
- Cyflawnodd 41.6% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol sy'n gynnydd o 11.9% ers 2012. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 31.4% i 50.9%.
- Cyflawnodd 13.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 6.9% ers 2012. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 2.8% i 20.1%.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 3 ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2011.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 5 | 32 | 108 | 140 | 28.1 | 46.3 | 42.1 | 81.3 | 82.4 | 82.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 46 | 46 |
| **2012** | 4 | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| **2011** | 5 | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |

Nid yw sgor cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i data sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn cwestiynau unigol ac mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlynadau da**

- 140 ymgeisydd o 5 ysgol ym Môn. Sgor cyfartalog y pwnc yw 46 sy'n ostyngiad o 3 phwynt ers llynedd.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 39 mewn ysgol arall.
- 42.1% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi gostwng yn sylweddol ers 2012 (-17%) ac yn dychwelyd i'r ganran a welwyd yn 2010.
- 82% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) sy'n dirywiad (-7%) o gylfawniadau 2012. Mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 32 : G 108).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgor cyfartalog y merched yn 46 mewn cymhariaeth a sgor cyfartalog y bechgyn o 44. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Fodd bynnag mae canlyniadau L2 eleni yn awgyrmu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cau am y pedwerydd blwyddyn o'r bron. Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 18.2%, sy'n llai na'r bwlch yn 2012 (22%).

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig cwrs byr Astudiaethau Crefyddol TGAU fel cymwyster ar gyfer y cwrs statudol Addysg Grefyddol CA4.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer o ysgolion | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 2 | 11 | 32 | 43 | | | | 72.7 | 84.4 | 81.4 | 100 | 100 | 100 | 21 | 25 | 24 |
| **2012** | 3 | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| **2011** | 2 | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrwaon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.

### 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Arolygwyd 9 ysgol gynradd yn ystod 2013-14: Biwmares, Caergeiliog, Cemaes, Corn Hir, Ffrwd Win, Goronwy Owen, Llaingoch, Moelfre, Santes Fair. Mae adroddiadau yn nodi bod yr ysgolion yn:

- ymateb yn briodol i ofynion addysg grefyddol (Biwmares, Goronwy Owen);
- darparu ystod eang o brofiadau ysgogol (Ffrwd Win);
- cydlynu ac yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda, (Biwmares, Caergeiliog, Goronwy Owen, Llaingoch, Moelfre);
- darparu amryw o gyfleoedd eithriadol o dda i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol, (Ffrwd Win);
- darparu sesiwn addoli ar y cyd dyddiol sy'n hybu datganiad cenhadaeth yr ysgol yn llwyddiannus, (Santes Fair);
- manteisio ar gysylltiadau lleol cryf gyda'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu i ategu datblygiad ysbrydol, moesol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol (Santes Fair);
- adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn gyson ac yn eu gweithredu'n effeithiol i sicrhau datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion, (Corn Hir).

### 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Cyngor Ynys Môn yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Môn.

### 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

### 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Môn yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
  - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
  - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ym Môn

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chyngori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Môn (28.06.14) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (26.11.14) yn dangos bod:

- holl aelodau CYSAG Môn yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- llawer o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod. Roedd un aelod yn barod i arwain sesiynau addoli ar y cyd yn achlysurol.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydyffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

**ADRAN 3: ATODIADAU**

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2013-14

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Y Diacon Stephen Francis Roe |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mr Rheinallt Thomas |
| Yr Eglwys yng Nghymru | gwag |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | *gwag* |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | *gwag* |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | *gwag* |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | *gwag* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *gwag* |
| Cyfetholwyd | Alison Jones (Ysgol Parch T Ellis)<br>Bethan Ll Jones (Ysgol y Graig) |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

Cynghorydd W T Hughes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd R Llewelyn Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Dylan Rees (**Cadeirydd**)
Cynghorydd Peter Rogers
Cynghorydd Alwyn Rowlands

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Mrs Helen Roberts | Prifysgol Bangor |
| Y Parchedig Elwyn Jones | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Dr. Gwynne Jones | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes |
| Mr Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Arweinydd System GwE |
| Mrs Ann Holmes | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2013 – 2014, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

26 Tachwedd 2013
18 Chwefror 2014
17 Mehefin 2014

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 26 Tachwedd 2013**

- Cefnogaeth GwE i GYSAG Ynys Môn
- 'Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd' (Adroddiad thematig ESTYN, 2013)
- Adolygiad o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2012/2013
- Pa mor dda yw safonau addysg grefyddol? Dadansoddiad o asesiadau athrawon CA3 ac arholiadau allanol TGAU.
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Cemaes, Corn Hir, Moelfre, Llaingoch
- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Ysgol Uwchradd Bodedern
- Sut gall aelodau CYSAG gefnogi'r drefn o fonitro safonau addoli ar y cyd ac Addysg Grefyddol? Dadansoddiad o'r holiadur
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, Gwynedd ar 19 Mehefin 2013.

**b) Cyfarfod 18 Chwefror 2014**

- Addysg Grefyddol yn Ysgol Gatholig y Santes Fair, Caergybi (cyflwyniad gan Christine Hunt)
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn (terfynol) 2011/12
- Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion: Ysgol Gymuned y Fali, Ysgol Pentraeth
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Ffrwd Win, Caergeiliog, Santes Fair.
- Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac adolygiad o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru
- Llyfr caneuon 'O Dduw, ein Tad' (Esgobaeth Bangor)
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2013.

**c) Cyfarfod 17 Mehefin 2014**

- Gweithio mewn partneriaeth: cyflwyniad gan Kirsty Williams, Galluogwr Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys yng Nghymru.
- Adroddiadau Arolygiadau ESTYN - cyfeiriadau at addysg grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion: Biwmares, Goronwy Owen
- Cyflawni dyletswyddau monitro CYSAG Môn;
- Cynhadledd Diogelu Gogledd Cymru, 28 Mawrth 2014: adroddiad gan Ddiacon Stephen Roe

- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 27 Mawrth 2014

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – arweinydd system GwE

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Dr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Mr Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, arweinydd system GwE
Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.  LL77 7EY

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir i gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod 2013-14, (gweler llythyr 11.06.14).

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Gareth Jones** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |

| |
|---|
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)**,** Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)**,** Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)**,** Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** |
| **Materion i gael sylw** |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Addoli ar y Cyd** | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | |

| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ<br>% L2<br>B G Σ<br>% L1<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

**Haf 2014 Summer.**

**Ysgol Llanfechell.**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi bolisiau a gweithdrefnau priodol ar gyfer hyn ac ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ysgol yn gymuned hapus lle teimla’r disgyblion yn ddiogel.

*The school promotes pupils’ health and wellbeing effectively. It has appropriate policies and procedures for this and for promoting pupils’ spiritual, moral, social and cultural development successfully. The school is a happy community in which pupils feel safe.*

**Ysgol Llangaffo.**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a threfnus ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a phriodol. Llwydda’r staff i greu amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar lle caiff iechyd a lles disgyblion flaenoriaeth uchel

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Yn ystod sesiynau addoli ar y cyd ac achlysuron eraill, caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill ac i drafod gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch. Mae’r arferion hyn yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy’n dderbyniol a’r hyn sy’n annerbyniol.

*The school is a happy and orderly community and it has comprehensive and appropriate policies and procedures. Staff create a safe environment and a friendly ethos in which pupils’ health and wellbeing have a high priority.*

*There is comprehensive provision for promoting pupils’ moral, social and cultural development. During collective worship sessions and other occasions, pupils are encouraged to reflect on their own lives and other people’s lives and to discuss values such as honesty and respect. These practices contribute significantly to helping pupils to distinguish between what is acceptable and what is unacceptable.*

**Ysgol Esceifiog.**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r meysydd hyn.

*The school provides a comprehensive range of learning experiences that respond fully to the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education.*

*The school is an inclusive and caring community in which adults and pupils show care and respect for each other and others very well. The school promotes pupils' spiritual, moral, social and cultural development successfully. The school's collective worship sessions and personal and social education programme contribute positively to these areas.*

**Ysgol Gyfun Llangefni.**

Mae staff yn cefnogi iechyd a lles disgyblion yn effeithiol ac yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol bwrpasol. Mae'r gwersi addysg grefyddol a'r gwasanaethau boreol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol, diwylliannol a chymdeithaol disgyblion.Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd moesol cadarnhaol fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill.

*Staff support pupils' health and wellbeing effectively and provide a purposeful personal and social education programme. Religious education lessons and the morning assemblies contribute well to pupils' spiritual, cultural and social development. The school fosters positive moral values such as honesty, fairness and respect for others.*

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Gareth Jones**

**Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:YSGOL LLANGAFFO**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Y mae safonau'r disgyblion mewn Addysg Grefyddol yn dda iawn. Mae addysg grefyddol yn cyfrannu'n fawr tuag at gymeriad Cristnogol nodedig yr ysgol.
Y mae'r dysgwyr yn cael eu hysgogi gan bwnc, syniad, stori ac yn dysgu yn arbennig o dda.
Y maent yn dablygu ac yn defnyddio amrywiaeth o uwch sgiliau yn effeithiol drwy ymholi, trafod, dadansoddi, gwerthuso a dod i gasgliad/ penderfyniad.

Y CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod testunau, galw i gof straeon ac i ofyn cwestinau yn dda.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithredoedd a'u barn erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Gall llawer ddisgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Y mae'r disgyblion yn defnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd y rhan fwyaf yn deall ystyr symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae nifer yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr a nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain a gallant gynnig sylwadau ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn deall ystyr ac arwyddocad symbolau crefyddol a gallant ddefnyddio geirfa crefyddol syml.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae bron bob un o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae teimladau, eu gweithredoedd a'u barn eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau hwy. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o symbolau crefyddol.
Y mae sgiliau y disgyblion yn dda iawn yn y modd y maent yn defnydio eu creadigedd a'u gwreiddioldeb i gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn add gref i'w cwestiynau personol am ystyr a phwrpas.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd.
Gall disgyblion CA2 drafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau neu o waith thematig. Manteisir ar gymorth gan y Rhiethor wrth drafod cwestiynau mawr megais " a oes rhaid marw?" Y mae adroddiad Adran 50, Haf 2014 yn cyfeirio at un wers benodol "Y mae disgyblion yn cael eu herio drwy ofyn cwestiynau megis 'all casineb fod yn beth da?' Annogodd hyn y disgyblion i feddwl yn ddwys, ac wedyn cyfeiriwyd hwy at sylfaen gwerthoedd yr ysgol, sef yr Iesu."

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant, canfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu gan Gyfarwyddwr yr Esgobaeth a gan y Rheithor yn dangos fod safonau yn rhagorol ar draws yr ysgol.

Mae gwerthoedd Cristnogol yn cael effaith cadarnhaol iawn ar ddatblygiad dysgwyr ac mae'r gwerthoedd hyn wedi eu plannu'n ddwfn ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn mynegi nodweddion Cristnogol arbennig. Y mae gwerthoedd Cristnogol yr Ysgol yn cael effaith sylweddol ar fywydau dyddiol a chyflawniadau dysgwyr. Dywedodd adroddiad Adran 50 haf 2014 fod "cymeriad Cristnogol nodedig Ysgol Llangaffo'n rhagorol wrth gyfarfod anghenion dysgwyr."

**Materion i gael sylw**
Fel rhan o adolygiad Cwricwlaidd Ysgol gyfan - adolygu cwricwlwm addysg Grefyddol yr Ysgol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | √ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Y mae gan Addysg Grefyddol broffil uchel o fewn cwricwlwm yr Ysgol. Y mae cyfnod o o leiaf un awr yn wythnosol yn cael ei roi i addysgu Addysg Grefyddol yn y ddau gyfnod allweddol.
Y mae cyswllt rhwng gwerthodd Cristnogol yr Ysgol a datblygiad ysgbrydol, moesol, cymdiethasol a diwylliannol yn rhan greiddiol o'r cwricwlm Addysg Grefyddol ac mae ganddynt effaith gadarn ar y disgyblion.
Y mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yn eang a chyfoethog ac yn annog y disgyblion i gywain gwybodaeth a dealltwriaeth drwy weithgareddau dysgu eang ac amrywiol.
Y mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i ddeall ac i wneud cysylltiadau rhwng credoau ac arferion crefyddau eraill.

Y mae pob aelod o staff yn meddu ar wybodaethaeth dda o Addysg Grefyddol.

Mae casglaid da o adnoddau e.e. storiau, llyfrau gwybdoaeth, llyfrau mawr, atreffactau, adnoddau TGCh yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes. Bydd yr Ysgol yn benthyca/ yn cael cyflwyniad ar arteffactau pendol gan y Rheithor ar adegau penodol o'r calendr Cristnogol.

Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Bydd ciwrad y plwyf yn cynnal sesiynau Godly Play gyda disgyblion y CS y mae'r dull yma yn ennyn chwilfrydedd y disgyblion ac yn annog iddynt feddwl.

Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau. Mae ymwelwyr cyson amrywiol yn cyfrannu yn helaeth at ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y disgyblion ymhellach e.e. cyflwyniadau gan griw "Agor y Llyfr," Effatha, ymweliadau gan yr Esgob a gan y Rheithor.

Mae'r Ysgol yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd yn eu gwersi Addysg Grefyddol yn unol a gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Mae cynlluniau manwl yn sicrhau dilyniant a datblygiad. Gyda chymorth y Rhiethor rydym yn cynllunio sesiynau "cwestiynau mawr." Y mae hyn wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Mae dulliau asesu manwl yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd.

**Materion i gael sylw**
Fel rhan o adolygiad Cwricwlaidd Ysgol gyfan - adolygu cwricwlwm addysg Grefyddol yr Ysgol.

| Rhagorol | √ | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy √ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Sicrheir fod y cyfnod o gyd-addoliad yn cwmpasu amrediad eang o themâu Cristnogol gyda phwyslais cryf ar werthoedd Cristnogol yr Ysgol a dathliadau Cristnogol. Y mae hyn yn sicrhau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o natur addoli, y ffydd, y traddodiadau ac arferion Cristnogol.

Mae cynllun cyd-addoli, cylch dwy flynedd, wedi ei lunio i sicrhau parhad, amrywiaeth a ffocws clir ar gredoau a gwyliau Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn ein gwasanaethau.  Drwy ein gwasanaethau, ein cynllun gwaith Addysg Grefyddol a'n cynllun AbaCh mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw, rannu teimladau ar y pryd a thrwy fyfyrio ar yr hyn a drafodwyd. Cant gyfle hefyd i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cylch yn wythnosol yn yr Ysgol. Ceir cyfle yn y gwasanaethau hyn i fyfyrio, holi a thrafod materion sy'n codi yn yr ysgol neu y tu allan. Mae'r cyfnodau yma yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, gwrando ar eraill ac i barchu amrywiaeth barn.

Yn wythnosol bydd grwpiau amrywiol o ddisgyblion CA2 yn paratoi gwasanaeth. Ceir amrywiaeth o eitemau yn y gwasanaethau yma o ddrama i gwis. Y mae hyn yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion CA2 o themau a straeon, yn eu hannog i feddwl am ddulliau effeithiol o gyflwyno'r stori/ thema ac yn cynnig profiadau cyd-addoliad amrywiol i ddisgyblion y CS.

Fel Ysgol Eglwys mae cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r disgyblion a Rheithor y plwyf. Bydd y Rheithor yn cynnal gwasanaethau yn gyson a bydd y plant hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn Eglwys y pentref - gwasanaeth Diolchgarwch a gwasanaeth Christingle.  Y mae criw o wirfoddolwyr yr Eglwys yn cynnal gwasanaethau bob pythefnos - cynllun "Agor y Llyfr." Adroddir stori o'r Beibl ar ffurf drama sy'n dod a'r storïau yn fyw. Trafodir cynnwys/ ystyr y storïau ar derfyn y gwasanaeth. Y mae dealltwriaeth y disgyblion o'r straeon ac o'u neges wedi cynyddu yn fawr yn sgil hyn.

Mae disgyblion yr Ysgol yn cyd-adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y gwasanaeth boreol, yn cyd-adrodd gweddi cyn cinio a gweddi/ gras ar ddiwedd y dydd. Cynhelir gwasanaethau a gwersi i sicrhau fod disgyblion yn deall natur a phwrpas gweddi. Yn ystod y gwasanaethau caiff y disgyblion gyfle i fyfyrio a chyfle i ddweud gweddi bersonol. Y mae'r disgyblion yn cael cyfle i ysgrifennu gweddïau ar gyfer achlysuron penodol e.e. diolchgarwch, rhyfel yn Syria ayyb.  Drwy gyfrwng hyn oll sicrheir fod y cyfnod y gyd-addoliad yn gyfnod ysbrydol nodedig.

**Cryfderau Allweddol**

Dywedodd 100% o rieni yn holiadur Haf 2013 fod gwerthoedd ac agwedd yr Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Disgyblion bl 5 a 6 i gadw cofnod o storïau/ themau ac emynau'r gwasanaethau ac i lunio arfarniad byr o'r gwasanaethau gan ganolbwyntio ar effaith y gwasanaethau

| Rhagorol | √ | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Manon Williams (Pennaeth)

Dyddiad: 7/9/14

**Enw'r Ysgol:YSGOL GYFUN LLANGEFNI**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

**Cyfnod Allweddol 3**

Erbyn diwedd CA3 mae'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau,gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a phrif grefyddau'r byd a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol a hynny drwy sgil craidd y pwnc. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymdrin â chwestiynau sylfaenol megis "Sut ydw i'n mynegi fy hun? Sut mae pobl yn mynegi eu credoau a'u teimladau?" Pam mae rheolau crefyddol yn bwysig i gredinwyr?" a Sut gallaf herio rhagfarn a chamwahaniaethu o fewn fy nghymuned?". Mae pob disgybl yn CA3 yn cael cyfle i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol e.e defodau geni, dathliadau, symbolau,cymunedau crefyddol ac anghyfiawnder. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau sylfaenol a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn gwahanol ffyrdd yn sgil eu credoau. Rhoddir cyfle hefyd i bob disgybl yn ddiwahan i fynegi ymateb personol i osodiadau megis "Ni all un person sefyll i fyny yn erbyn anghyfiawnder yn y byd!'", "Tydy addoldai ddim yn bwysig; pwy a sut rydych chi'n addoli sy'n bwysig!" ac 'Dydy cadw kosher ddim yn anodd o gwbl'. Mae'n nhw'n mwynhau ystyried eu barnau eu hunain a thrafod gwahanol safbwyntiau gyda'u cyfoedion yn y gwersi.

**Cyfnod Allweddol 3**

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 3 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gallrhan fwyaf o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 3 mae'r lleiafrif yn gallu cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol i amrywiaeth o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion ac esbonio a chyfiawnhau y rhesymau dros yr ystod o safbwyntiau sydd gan bobl grefyddol.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 3 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 3 mae'r lleiafrif yn gallu ystyried goblygiadau eu credoau a'u gweithrediadau eu hunain, ac yn cymharu'r rhain gyda rhai pobl eraill ac yn dod i gasgliadau cytbwys. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn gallu esbonio ystyr symbolaidd gwrthrychau, gweithrediadau a/neu iaith grefyddol.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 3 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 3 mae'r lleiafrif yn gallu ystyried cwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol o ystod o safbwyntiau crefyddol ac yn dechrau dod i gasgliadau rhesymegol.

**Canlyniadau Asesiadau Athrawon CA3**

Llwyddodd 80.8% i gyrraedd Lefel 5+, yn well na'r llynedd 63.1%.

38.4% wedi cyrraedd 6+, yn well na'r llynedd 24.8%.

12.2% wedi cyrraedd Lefel 7+, yn sylweddol well na'r llynedd 1.5%.

**Cyfnod Allweddol 4**

Dilynir y cwrs Manyleb B [CBAC] ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio'r rhai'n i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Darperir gwersi Addysg Grefyddol statudol i bob disgybl yn CA4 , fel rhan o'r cylch A B a Ch, a'r Fagoloriaeth Cymraeg ym mlwyddyn 10 . Trafodir Hawliau Dynol, rhinweddau perthnasedd dda – priodas , ysgariad a priodas yr un rhyw. Yn ogystal a hyn darperir gwersi ym Mlwyddyn 11 ble mae'r pwyslais ar gynnal trafodaeth ac ymdrin â phynciau megis IVF a Chyfrifoldeb ac Anghyfiawnder Cymdeithas.

**Canlyniadau TGAU**

Cafwyd canlyniadau da eleni gyda 84.2% wedi cael graddau A* - C. Roedd hyn yn well na chanlyniadau llynedd a oedd yn 80.6% ac yr un fath a chanlyniadau 2011, 84.2% - A* - C.

Llwyddodd 100% o'r disgyblion gael gradd A* - G.

Cafodd 66.6% o'r bechgyn raddau A* - C , sy'n uwch na'r llynedd [53.9%].

**Cyfnod Allweddol 5**

Dilynir y cwrs Safon Uwch CBAC , ble caiff y myfyrwyr gyfle i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 ( Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 ( Astudio Bwdhaeth a Astudio Crefydd a Profiad Dynol.

**Canlyniadau Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch.**

**Safon Uwch Gyfrannol**

Canlyniadau da, 33.3% yn llwyddo i ennill gradd A, 77.7% yn llwyddo i gael graddau A – C, a 100% yn ennill graddau A – E.

**Safon Uwch**

Canlyniadau da iawn 92.8% o'r disgyblion wedi cael graddau A* - C a 100% yn ennill graddau A* - E.

Cafodd 21.0% o ddisgyblion raddau A* - A.

Mae tystiolaeth yn llyfrau/ffeiliau a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod y safonau yn dda yng

nghyfnodau 3, 4 a 5.

## Materion i gael sylw

Sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd y targedau heriol a osodwyd.

Datblygu portffolio o dasgau asesu CA 3

Parhau i wella perfformiad y bechgyn, gyferbyn â pherffomiad y merched o fewn y graddau A*/A, A/B yn TGAU.

Gwneud defnydd o ddata y “ walled garden” i adnabod gwendidau o fewn y papurau arholiad TGAU/UG/A.

Targedu cwestiynau b a d ar y papur TGAU.

Targedu cwestiynau gwerthuso ar y papur UG.

Gwneud adolygiad o defnyddiau adolygu TGAU/UG/A

Defnydd o ddata misol Mentora Pendant i adanabod unrhyw dan gyflawni sy’n digwydd o fewn TGAU .

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

**Yr addysgu : cynllunio ac amrediad o strategaethau.**

Neilltuir dwy wers yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ym mlynyddoedd 7 ac 8 ac un wers yr wythnos ar gyfer y pwnc ym mlwyddyn 9.
Mae’r ddwy athrawes sy’n addysgu Addysg Grefyddol fel eu prif bwnc yn gyfarwydd â’r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent yn adnabod y tri sgil craidd sef ymdrin â’r cwestiynau sylfaenol , archwilio credoau , dysgeidiaethau ac arferion a mynegi ymatebion crefyddol.
Mae cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol wedi’u seilio ar ofynion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol ac yn ymgorffori y tri sgil craidd yn y meysydd astudio.

Mae’r gweithgareddau wedi cael eu cynllunio’n ofalus gan gynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgu blaenorol. Mae’r adran wedi ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd , gan adnabod cyfleoedd i ddatblygu sgiliau darllen , llafaredd ac ysgrifennu. Mae’r holl dasgau wedi eu mapio ar daenlen EXCEL sy’n ymateb i ofynion y fframwaith . Cedwir enghreifftiau o waith disgyblion blwyddyn 7 o’r gwahanol elfennau sydd yn y fframwaith. Mae’r adran hefyd yn paratoi ar gyfer adrodd ar safon llythrennedd i rieni.

Ceir nifer fawr o adnoddau o fewn yr Adran e.e arteffactau, llyfrau a dvds. Mae defnydd eang yn cael ei wneud o’r

byrddau gwyn rhyngweithiol, sydd yn cwmpasu defnydd o sawl ffurf electroneg. Mae'r Adran hefyd yn berchen ar i Pad Air, ac yn dechrau arbrofi ar sut i wneud y defnydd gorau ohono yn y gwersi.

**Cyfnod Allweddol 4**

Neilltuir 3 gwers yr wythnos ar gyfer gwersi TGAU Astudiaethau Crefyddol, ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae dau ddosbarth yn bodoli ym mhob blwyddyn. Mae'r ddau grwp yn cael eu dysgu gan Athrawon cymwys yn y pwnc. Dilynir y cwrs Manyleb B [CBAC] ar gyfer TGAU sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio rhain i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Mae gwersi graenus wedi eu paratoi i sicrhau bod y disgyblion yn llwyr ddeall testunau a gofynion y cwrs. Mae'r gwaith yn cael eu gyflwyno ar ffurf unedau , gyda phrawf yn dilyn ar ddiwedd pob uned. Mae gwaith cartref yn cael ei osod yn rheolaidd yn seiledig ar gwestiynau y papur arholiad. Mae gwersi adolygu yn cael eu trefnu gyda'r un gofal a gwersi arferol , gyda adnoddau priodol i bob disgybl, i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu paratoi'n drwyadl ar gyfer yr arholiad.Cynhelir clwb adolygu ar ol ysgol.

Addysgir yr Addysg Grefyddol statudol gan aelodau o'r Adran Addysg Grefyddol a chynllunir y gwersi yn ofalus, fel bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau mynegi barn a gwneud penderfyniadau – yn unigol, mewn parau a grwpiau.

**Cyfnod Allweddol 5**

Neilltuir 4 gwers yr wythnos ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Addysgir Uwch Gyfrannol gan aelodau yr Adran a Safon Uwch gan y Pennaeth Adran.

Dilynir y cwrs Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ble caiff y myfyrwyr gyfle i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 (Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 ( Astudio Bwdhaeth ac Astudio Crefydd a Phrofiad Dynol).

Paratoir gwersi manwl, cyfoes sydd yn ennyn diddordeb y myfyrwyr ac yn annog astudiaeth annibynol. Gosodir gwaith cartref rheolaidd. Defnyddir y dull o draethodau wedi eu hamseru a ffug arholiadau er mwyn paratoi'r disgyblion yn drwyadl ar gyfer yr arholiadau.

## Materion i gael sylw:

**CA 4**

Archwilio ffyrdd i ddenu mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc i TGAU .
Datblygu a chreu mwy o adnoddau gwahaniaethol.

**CA 5**

Parhau i ymateb i anghenion unigol y myfyrwyr – unai cymorth ychwanegol neu dasgau unigol ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.
Adolygu technegau o gyflwyno yr uned synoptic.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |

Mae addoli ar y cyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion addoli Duw, ystyried materion ysbrydol a moesol yn ogystal ag ystyried eu credoau eu hunain. Mae hyn yn cael ei gyflwyno trwy wrando, gwylio ac ymuno yn yr addoliad a gynigir.

- Mae'r ddarpariaeth addoli ar y cyd yn digwydd pob dydd i bob disgybl
- Mae rhan fwyaf o weithredoedd addoli ar y cyd ym mhob tymor yn dilyn patrwm Cristnogol yn bennaf.

Hynny yw, yn adlewyrchu traddodiadau cyffredinol y gred Gristnogol heb gadw at arferion unrhyw enwad Cristnogol yn benodol,

- Mae addoli ar y cyd yn cael ei gynnal rhwng 8.50 a 9.10 yn y bore yn y neuadd.
- Dydd Llun, Mercher a Gwener ysgol gyfan
- Dydd Mawrth – Bl 10,11, 12 a 13.
- Dydd Iau – Bl 7, 8 a 9.
- Mae addoli ar y cyd yn cael ei ddarparu i rai disgyblion yn ystod cyfnod cofrestru pan mae gweddill yr ysgol yn cael gwasanaeth neu pan mae arholiadau yn y neuadd.

Gall rhiant gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac mae'n rhaid i'r ysgol gytuno i geisiadau o'r fath.
Mae prosbectws yr ysgol yn cyfeirio at hawl y rhieni i gyflwyno cais i esgusodi eu plentyn o addoli ar y cyd ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hesgusodi.
Mae gan athrawon yr hawl i beidio â chymryd rhan mewn addoli ar y cyd.
**Darpariaeth:**

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei gynnal gan yr UDR, pennaethiad blwyddyn a rhai disgyblion.
Mae rhai o gydrannau priodol addoli ar y cyd wedi'u nodi isod, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr:

- Myfyrio – gall disgyblion gael eu hannog i wrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad priodol, fel darlleniad neu cyflwyniad 'powerpoint', rhan o ddrama, fideo, cân, darn o gerddoriaeth, arteffact, pennill, stori, erthygl newyddion, ffotograff, llun, gweddi, cwestiwn, defod, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddi – mae disgyblion yn gwrando neu cael eu hannog i weddïo'n unigol yn dawel.
- Darlleniad – mae rhai disgyblion yn cyfrannu trwy ddarllen gwaith llenyddol, neu tiwtor dosbarth yn rhoi cyfle i 'funud i feddwl'.

Mae gwasanaethau ar gael i athrawon ar rwydwaith yr ysgol sy'n cyd fynd a thema'r wythnos.

Gall disgyblion drafod ysgogiad wrth addoli ar y cyd yn ystod gwaith efo'r tiwtor dosbarth.
Ar y cyfan mae Addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn Ysgol Gyfun Llangefni.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Ann Mackay [Pennaeth Adran]

Addoli ar y Cyd Aelod o'r UDR.

Dyddiad: /6/14 [Dyddiad yr Arolwg Mai 19 – 23 , 2014]

This page is intentionally left blank